# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cygnor a gynhaliwyd ar
**Nos Iau 20 Hydref Gorffennaf 2022 am 18.30**
*cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd David H Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Sian Beidas

**Cynghorydd Sir**
Cyng. Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Mair Owen Pierce. **Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Dafydd Roberts, Huw Jones ac Anwen Jones.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2022.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Adroddwyd fod y Clerc a Cyng. Beca Roberts wedi gael cyfarfod gyda Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd, dechrau mis Medi. Cylchredwyd adroddiad o'r cyfarfod hwn gyda'r Cynghorwyr o flaen llaw. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd mewn cyswllt â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio gael cyllid i ariannu'r cynllun, ac i'r Cyngor cysylltu â nhw ym mis Ionawr. Y Clerc i holi am manylion cyswllt y swyddog yn Llywodraeth Cymru sydd yn delio gyda grantiau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Gostwng Cyflymder.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –**Nodwyd fod Chris Burgess, Breedon wedi gofyn i cwmni Savills cysylltu a'r Clerc ynglyn a hyn, y Clerc wedi danfon rhifau ffôn ond heb dderbyn unrhyw galwad hyd yn hyn. Y Clerc wedi gofyn am ymateb neu cyfarfod ar y mater, dim ymateb hyd yn hyn.

3.3 **Llwybr Rhif 3 –** Nodwyd fod y Swyddog Llwybrau wedi archwilio'r llwybr peth amser yn ôl. Nodwyd eu bod yn disgwyl am arweiniad ar rhai o'r problemau sydd yn bodoli yma. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**3.4 Drychau traffig -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lôn Llwybr Main o gyfeiriad Lôn y Grug, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi unwaith eto, gan copio'r Cyng. Beca Roberts yn yr ebost.

**3.5 Lôn y Wern, Tregarth** – Nodwyd y Cyng. Dafydd Roberts fod angen mwy o waith ar y ffordd rhwng Eglwys Gelli a Cororion. Adroddwyd fod gwaith wedi cychwyn ar y ffordd, y Cyng. Sian Beidas i ddiweddaru'r Clerc.

**3.6 Mainc Pentref Llandygai –** Nodwyd fod y Cyngor wedi gael caniatad gan Gyngor Gwynedd i osod mainc newydd ym Mhentref Llandygai, ar yr amod ein bod yn ariannu a trefnu, a chymryd cyfrifoldeb amdani. Y Clerc i edrych am brisiau.

**3.7 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors –** Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn ymateb gan y Gweinidog Tai, Julie James AS i godi pwysigrwydd defnyddio deunyddiau lleol a pwysigrwydd lleihau ôl troed carbon. Nodwyd y bydd y Cyng. Dafydd Roberts yn llunio ymateb i'r llythyr hwn, a'i gylchredeg i'r aelodau erbyn y cyfarfod nesaf.

**3.8 Ffens Canolfan Tregarth** – y Clerc wedi trefnu i gael dyfynbrisiau am wenud y gwaith. Nodwyd Cyngor Gwynedd efallai y bydd arian grant ar gael i wneud y math yma o waith, a bod Dafydd Einion Jones o Chyngor Gwynedd mewn cyswllt â'r Clerc.

**3.9 Seddi Gwag –** Mae 2 sedd wag ar gael o fewn y Cyngor, y Clerc i hysbesbu'r ddwy sedd eto.

**3.10 Llochesi Bws Sherpa –** Nodwyd fod llochesi newydd wedi'i leoli ym Methesda – y Clerc i holi os oes modd gosod un tebyg ger cylchfan ystad ddiwydiannol Llandygai.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Hydref 2022'

**Cyflwynwyd:** Bwrdd Ynni Ogwen – penderfynwyd os oes unrhyw un o'r aelodau hefo diddordeb, i gysylltu yn uniongyrchol gyda Bwrdd Ynni Ogwen.

**Cyflwynwyd:** Ysgol Dyffryn Ogwen – Cais am gyfraniad at y noson wobryuo – penderfynwyd rhoid cyfraniad o £150 eto eleni.

**Cyflwynwyd:** Dafydd Gibbard – Diffyg ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd – y Cyngor i gadw llygaid ar y mater i'r dyfodol.

**Cyflwynwyd:** Cyng. Iwan Hywel – Gwasanaethau bws – Adroddwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi bod mewn cyswllt a'r Cyngor ac Arriva i drafod y problemau, a nodwyd bod gwasanaeth newydd wedi gael ei ychwanegu ar gyfer plant yn teithio i'r Coleg. Nodwyd y pwysigrwydd o pawb i gadw cofnod o amseroedd a dyddiadau o bysiau ddim yn troi fyny neu yn hwyr, ac i ddanfon nhw at y Cynghorydd Sir.

**Cyflwynwyd:** Julie James AS – Ymateb i llythyr 'Defnydd Llechi Lleol' – Penderfynwyd y bydd y Cyng. Dafydd Roberts yn llunio ymateb a'i danfon at y Clerc cyn y cyfarfod nesaf.

**Cyflwynwyd:** Cyng. Beca Roberts – Cynllun Lliniaru Llifogydd Mynydd Llandegai – Penderfynwyd y bydd y Cyng. Lowri Jones yn cynrychioli'r Cyngor.

**Cyflwynwyd:** Sara Roberts, Eglwys Wyllt – Graffiti Twnel Tywyll – Y Cyng. Beca Roberts i ddanfon mwy o fanylion pan fydd dyddiad wedi bennu i wirfoddoli. Y Cyng. Beca Roberts i holi os oes modd gosod camerau yn y twnel.

**5. Llwybrau Cyhoeddus**

Y Clerc i holi beth yw cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned o ran trin y llwybrau cyhoeddus a'r ffosydd, ac yno pederfynwyd y bydd y Cyngor yn rhoid y gwaith allan ar dendr ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**6. Gwaith y mis**
**Llwybrau Cyhoeddus –** Penderfynwyd y bydd y Cyng. Dafydd Owen yn gofyn i'r contractwr gwneud toriad diwethaf eleni.
**Biniau Halen –** Nodwyd y Cyng. Beca Roberts fod Cyngor Gwynedd ar fin cyhoeddi map digidol a fydd yn cynnwys y biniau, ble fydd bosib adrodd amdanynt ar y we. Nodwyd y Cyng. Iwan Hywel fod angen bin newydd yn Dob.
**Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –** Adroddwyd fod coesau'r hybyswrdd yma angen ei drwsio. Penderfynwyd y bydd y Cyng. Dafydd Owen yn mynd i edrych am bris i'w drwsio, a bydd y Clerc yn chwilio am pris un metel newydd.

**7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth** – Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen am y gwelliannau yn y ganolfan. Nodwyd fod y pwyllgor yn edrych ar y posibilrwydd o gael paneli solar, ac eu bod am gysylltu â Heulro Ogwen.
**Ysgol Bodfeurig –** Nodwyd fod y Cyng. Mary Hayes wedi mynychu'r cyfarfod llywodraethwyr diwethaf, a nodwyd y byddai'r ysgol yn hoff iawn o gael un cynrychiolydd arall oddi ar y Cyngor, pan fydd y seddi gwag wedi'i lenwi.
**Ysgol Tregarth –** Nodwyd fod y Cyngr. Sian Beidas a Dafydd Owen wedi mynychu cyfarfod llywodraethwyr yn ddiweddar.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**8.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Medi. Derbyniwyd yr adroddiad.

**9. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Archwiliad Mewnol | £240.00 |
| G Williams | Toriad Llwybrau cyntaf | £3300.00 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu ar y pryd – mis Mai | £96.00 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu ar y pryd – mis Mehefin | £96.00 |
| Cyngor Gwynedd | Costau Etholiad | £321.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Costau rhedeg Llyfrgell Gymunedol | £558.50 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £8292.83 |
| Partneriaeth Ogwen | Swyddog Cynnal | £4674.62 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

**C18/0767/25/LL**

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0336/16/MW**

Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn
Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi
**Penderfyniad**: Ar y gweill.

| | |
|---|---|
| **C22/0327/16/AC** | Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn<br>Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1164/16/MW (Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn amser ar gyfer adfer y safle hyd at 2037 a diwygio cynlluniau er mwyn cynnwys estyniad i'r ardal cloddio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **NP3/16/28B** | Tir ger Maes Parcio Ogwen, Nant Ffrancon<br>Hysbysiad o flaen llaw o dan Rhan 24 o'r Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateîr) Gorchymyn 1995 i godi polyn 15m o uchder wedi'i gladio a pren a fyddai'n cefnogi 3 o antenau a 2 o antenau dysgl ynghyd a chypyrddau offer ar y ddaear a'r datblygiadau ategol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0430/16/DT** | Arfon Lôn Y Grug, Mynydd Llandygai<br>Dymchwel rhan o estyniadau presennol a codi estyniad deulawr ar gyfer ystafelloed byw, llofft a ystafell molchi ychwanegol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C22/0874/16/LL** | Plot C5, Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Codi adeilad i'w ddefnyddio fel masnachwr adeiladu (defnydd sui generis) a strwythurau iard cysylltiedig, mannau llwytho, maes parcio, cynigion tirlunio ynghyd â gwaith cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C22/0680/16/AM** | Tyn Y Clwt Isaf, Tregarth,<br>Cais amlinellol ar gyfer gosod pedair uned wyliau llety amgen dros-dro<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C22/0946/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda,<br>Codi strwythur ffrâm ddur i'w ddefnyddio fel atyniad twristiaeth antur (Gravity Explorer) ynghyd â gwaith cysylltiedig |

| | |
|---|---|
| | **Penderfyniad:** Cefnogi – gyda sylwadau Cyng. Dafydd Roberts. |
| **C22/0871/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda, Gosod canopi "kit-up" (ôl weithredol) a newid defnydd tir i osod tram er gwasanaethu bwyd a diod.<br>**Penderfyniad:** Gwrthwynebu – gyda sylwadau Cyng. Dafydd Roberts. |

**12. Unrhyw fater brys arall**

**Cyfarfod wyneb i wyneb** – Penderfynwyd y bydd y Cyngor yn cyfarfod wyneb i wyneb mis nesaf.